

Gwneud yr anweledig yn weładwy : Codeword Pineapple

Diffinnir person ag anabledd fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith sylweddol ar fywyd, yn enwedig yn y gweithle.



Mae 96% o bobl sy'n byw ag anabledd yn byw ag anabledd anweledig, a nifer sylweddol o'r achosion hynny ynghlwm â phroblemau iechyd meddwl.

Ar ôl symud i Lundain profodd Jess, sylfaenydd [Codeword Pineapple](#), werth amhrisiadwy'r bathodyn *TFL Please Offer me a Seat* wrth gymudo. O ganlyniad, dechreuodd ystyried mor ddefnyddiol fyddai rhywbeth tebyg ar gyfer gweddill y diwrnod.

Mae gan bobl sydd ag anableddau anweledig yr un hawl i dderbyn addasiadau yn y gweithle â phobl ag anableddau gweladwy.

Yn anffodus, anaml gwneir addasiadau tebyg am ddau reswm. Yn gyntaf, gall dechrau sgws o'r fath â chyflogwr fod yn anodd, ac yn ail, yn aml nid yw problemau cronig yn unionlin. O ganlyniad, gall bobl weithiau fod yn amharod i wneud addasiadau yn ôl anghenion y gweithiwr pan nad yw'r addasiadau

yn angenrheidiol drwy'r amser. Gall cyfathrebu'r gwahaniaeth rhwng diwrnod da a diwrnod gwael i eraill pan fo angen cymorth ychwanegol fod yn anodd.

Mae Codeword Pineapple yn fenter sydd am helpu datrys y problemau hyn.



Rydym yn darparu bathodynau pin am ddim a cherdyn wybodaeth (yn Gymraeg neu'n Saesneg) i unrhyw un sydd eu hangen: gellir dangos y cerdyn wybodaeth i gydweithwyr, cyflogwyr neu athrawon.

Mae'r pin pinafal yn gweithredu fel symbol – neu *codeword!* – i ddangos pan fo angen cymorth ychwanegol neu addasiad mewn ffordd syml. Rydym yn gobeithio, dros amser, y bydd y pinafal y tyfu i fod yn symbol hawdd i'w adnabod ar gyfer anabledd anweledig.

Pam pinafal? Am eu bod nhw'n ymladd yn ôl!

Pinafal yw'r unig ffrwyth sydd ag ensym sy'n ceisio torri i lawr tu fewn i'n ceg wrth i ni eu bwyta. Roeddem ni am angori ein prosiect â'r un ymdeimlad o wydnwch!

Os ydych am archebu pin, ewch i'n [gwefan](#) i lenwi ffurflen archebu, ac fe wnewn ni bostio pin am ddim i'r cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen archebu o fewn wythnos. I glywed mwy am y fenter, dilynwch ni ar [Facebook](#), [Instagram](#) neu [Twitter](#).

Tîm *Codeword Pineapple*

-
- [ERTHYGL: Effaith poen corfforol hirdymor ar ein hiechyd](#)

[meddwl](#)